

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 01/07/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

Rhif: 6

Cais Rhif: C19/0414/18/LL

**Dyddiad
Cofrestru: 01/05/2019**

Math y Cais: Llawn - Cynllunio

Cymuned: Llanddeiniolen

Ward: Penisarwaun

Bwriad: Ymestyn safle gwaith trin dwr presennol ar gyfer gosod cyfarpar offer a thirweddu

Lleoliad: Rhiwlas Wastewater Treatment Works, Rhiwlas, Bangor, Gwynedd, LL57 4EN

**Crynodeb o'r
Argymhelliad: CANIATAU GYDAG AMODAU**

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 01/07/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

1. Disgrifiad:

- 1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer ymestyn y safle gweithredol gwaith trin dŵr presennol ar gyfer gosod cyfarpar offer a thirweddu ar gyrion gorllewinol pentref Rhiwlas. Bydd y cyfarpar offer yn cynnwys sgip (a fydd yn cael ei wagio'n rheolaidd), panel rheoli bach ynghyd â fframwaith dur falf cilfach. Bydd y fframwaith 2.9m o uchder wedi ei osod ar blinth concrid yn mesur 6.5m o hyd a 2.5m o led gyfochrog a ffin y safle trin dŵr presennol. Bwriedir hefyd gosod ffens diogelwch safonol dolen gadwyn 1.8m o uchder o amgylch safle'r cais gyda chynllun tirlunio sy'n cynnwys draenen wen a chollen ynghyd â phlannu glaswellt *yellow rattle* ar lecyn o dir cyfagos a fydd yn cael ei ddefnyddio fel cwrmpownd yn ystod y gwaith adeiladu. Cyflwynwyd y cais ar sail uwchraddio'r gwaith trin dŵr yn unol â gofynion Cyfarwyddyd Fframwaith Dwr er mwyn lleihau lefelau ffosfforaidd sy'n arllwys i'r cwrs dŵr cyfagos.
- 1.2 Saif y safle yng nghefn gwlad oddeutu 190m i'r gorllewin o Rhiwlas gyda mynediad a rhodfa iddo oddi ar y ffordd sirol dosbarth III cyfagos. Adnabyddir yr ardal fel Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol gan CADW a lleolir Safle Bywyd Gwyllt nepell i'r de ac i'r dwyrain o safle'r cais.
- 1.3 Cadarnhawyd bod yr ymgeisydd wedi ymgymryd ag ymgynghoriaeth cyn cyflwyno cais yn unol â gofynion Erthygl 1 o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio), 2016 gan gynnwys pecyn gwybodaeth ar yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio ynghlwm â'r cais hwn gan ystyried bod y datblygiad yn *ddatblygiad mawr* fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru (o ystyried cyfanswm arwynebedd y safle presennol ynghyd ac arwynebedd y safle arfaethedig).
- 1.4 Yn ychwanegol i'r uchod, mae'r cais wedi ei sgrinio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru), 2016 a chadarnhawyd nad oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol mewn perthynas â'r datblygiad yma.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- 2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 (CDLL) mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017:-**

Polisi PCYFF2 – meini prawf datblygu.

Polisi PCYFF3 – dylunio a siapio lle.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 01/07/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

Polisi PCYFF4 – dylunio a thirweddu.

Polisi TRA4 – rheoli ardrawiadau cludiant.

Polisi ISA1 - darpariaeth isadeiledd.

Polisi AMG5 – cadwraeth bioamrywiaeth leol.

Polisi PS20 – diogelu a lle bo'n berthnasol wella asedau treftadaeth.

2.4 **Polisiau Cenedlaethol:**

Nodyn Cyngor Technegol 12 Dylunio (2016).

3. **Hanes Cynllunio Perthnasol:**

- 3.1 Cais rhif C18/1035/18/TC - tystysgrif cyfreithloni ar gyfer defnydd y safle presennol fel defnydd gweithredol gwaith trin dŵr Dŵr Cymru wedi ei ganiatáu yn Ionawr, 2019.

4. **Ymgynghoriadau:**

Cyngor
Cymuned/Tref: Dim ymateb.

Uned Drafnidiaeth: Dim argymhelliad.

Cyfoeth Naturiol
Cymru: Dim gwrthwynebiad.

Dŵr Cymru: Dim gwrthwynebiad yn amodol na fydd unrhyw strwythur wedi ei leoli oddi fewn i 3m o'r brif bibell ddŵr sy'n croesi'r safle.

Uned
Bioamrywiaeth: Amodau yn ymwneud â thorri coed a chydymffurfio gyda mesuriadau lliniaru o fewn yr Adroddiad Ecolegol Rhagarweiniol a gyflwynwyd gyda'r cais.

Ymgynghoriad
Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle ac mae'r cyfnod hysbysebu eisoes wedi dod i ben ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r cais gan y cyhoedd yn dilyn y cyfnod hysbysu statudol.

5. **Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae'r egwyddor o ganiatáu datblygiadau ar gyfer isadeiledd gwasanaethau fel cyflenwad dŵr wedi ei selio ym Mholisi ISA1 o'r CDLL. Mae'r polisi yn datgan caniateir cynigion am wasanaethau dŵr, trydan, nwy ac ati i wella'r ddarpariaeth cyn belled nad ydynt yn peri niwed sylweddol i'r amgylchedd lleol, mwynderau cyhoeddus neu ddiogelwch y cyhoedd. Gan ystyried graddfa a natur y datblygiad hwn credir bod y bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 01/07/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

Mwynderau gweledol

- 5.2 Fel y cyfeiriwyd ato uchod mae'r safle estynedig wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored y tu allan i ffin datblygu Rhiwlas. Er gwaethaf ei leoliad yng nghefn gwlad mae gosodiad y safle yn y tirlun yn golygu mai golygfeydd ysbeidiol ceir ohono o'r man tramwy cyhoeddus cyfagos (ffordd sirol dosbarth III sy'n gwasanaethu Rhiwlas). Mae'r safle wedi ei leoli 117m o'r ffordd ei hun ac wedi ei fframio gan gefnlen o goed a llwyni trwchus. Rhaid ystyried hefyd bod bwriad i blannu llwyni a chlawdd o amgylch yr offer a fyddai, dros amser, yn ei sgrinio'n gyfan gwbl. Gan ystyried yr uchod credir bydd y cyfyngiad o ffurf, graddfa, edrychiadau ynghyd â gosodiad yr offer yn y dirwedd yn golygu y byddai unrhyw ad-drawiad gweledol ohono o olygfeydd agos yn unig (ac ar dir preifat) a bydd unrhyw olygfeydd ohono o bellter yn ysbeidiol yn unig o gyfeiriad y gogledd. Credir hefyd na fydd y bwriad yn tanseilio integreidd na chymeriad Tirlun o Ddiddordeb Eithriadol Hanesyddol Dinorwig gan ystyried ei osodiad yn y dirwedd ynghyd â'i raddfa a'i faint. I'r perwyl hyn, felly, credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail Polisi ISA1, PCYFF3, PCYFF4 a PS20 o'r CDLL.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.3 Mae'r safle wedi ei leoli oddeutu 190m i'r gorllewin o bentref Rhiwlas gyda thir amaethyddol a llystyfiant wedi eu lleoli rhwng safle'r cais a'r tŷ agosaf ar gyrion Rhiwlas. Gan ystyried graddfa a natur y datblygiad ynghyd â'r ffaith mai gwelliannau a fwriedir yma er mwyn gwaredu dŵr aflan mewn modd diogel sy'n atal llygredd i'r amgylchfyd (ar sail lleihau lefelau ffosfforaidd) ni chredir byddai caniatáu'r cais yn tanseilio mwynderau cyffredinol na phreswyl preswylwyr cyfagos ar sail sŵn ac aflonyddwch. Rhaid nodi bod y gwaith trin dŵr presennol eisoes wedi ei ymsefydlu yn y dirwedd ers peth amser erbyn hyn ac mai estyniad weddol fechan a fwriedir yma i'r safle gweithredol presennol gyda'r cyfarpar offer yn israddol i'r offer presennol sydd o fewn y safle. Nodir hefyd na dderbyniwyd unrhyw ymateb gan y cyhoedd i'r bwriad yn dilyn y cyfnod hysbysu statudol. Credir, felly, i'r datblygiad fod yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi ISA1 a PCYFF2 o'r CDLL.

Materion trafndiaeth a mynediad

- 5.4 Cysylltir y safle i'r ffordd sirol dosbarth III gan ddefnyddio'r fynedfa bresennol sydd â lleiniau gweld safonol i'r ddwy ochr. Nid oes gan yr Uned Drafndiaeth wrthwynebiad i'r cais ar sail diogelwch ffyrdd a rhagwelir na fydd cynnydd sylweddol mewn trafndiaeth i mewn ac allan o'r safle ar ôl i'r gwaith cael ei gwblhau. I'r perwyl hyn, felly, credir bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi TRA4 o'r CDLL.

Materion bioamrywiaeth

- 5.5 Lleolir Safle Bywyd Gwyllt nepell i'r de ac i'r dwyrain nid yn unig o safle'r cais ond hefyd o safle gweithredol presennol Dŵr Cymru. O ystyried agosatrydd y dynodiant yma cyflwynwyd Adroddiad Ecologol Rhagarweiniol gyda'r cais a ddaw i'r canlyniad bod y rhan fwyaf o gynefinoedd ecolegol o fewn y safle gweithio o werth isel a bod y cynefinoedd hynny o safon ganolradd yn cael eu diogelu fel rhan o'r datblygiad. Fe all rhywogaethau fod yn bresennol o fewn neu o amgylch y safle gan gynnwys adar, ystlumod ac ymlusgiaid. Bydd ymgymryd â gwaith tirwedd yn cyfoethogi cynefinoedd ecolegol y safle a byddai'r cyfarpar offer, drwy leihau lefelau ffosfforaidd, o fudd hefyd i ecoleg a bioamrywiaeth y cwrs dwr cyfagos. Nid oes gan yr Uned Bioamrywiaeth wrthwynebiad i'r cais yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 01/07/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

perthnasol sy'n diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol. I'r perwyl hyn, felly, credir bod y bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi AMG5 o'r CDLL.

6. Casgliadau:

- 6.1 Gan ystyried yr asesiad uchod ac wedi ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys polisiâu a chanllawiau lleol a chenedlaethol ynghyd â'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn y broses ymgynghori statudol, credir bod y bwriad yn dderbyniol yn ddarostyngedig ar gynnwys yr amodau isod.

7. Argymhelliad:

- 7.1 Caniatáu - amodau:-

1. 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau.
3. Tirlunio.
4. Cydymffurfio gyda mesurau lliniaru'r Adroddiad Ecolegol Rhagarweiniol.